MENYWOD YN CYCHWYN BUSNESAU: CRYNODEB GWEITHREDOL

Arad Consulting
Yn seiliedig ar wybodaeth a gymrwyd 2000- 2006

Cefndir

Cynhaliwyd yr ymchwil hwn gan Chwarae Teg fel rhan o brosiect Menter Menywod Cymru.

Sefydlwyd prosiect Menter Menywod Cymru yn 2000 i ddarparu cynhaliaeth, hyfforddiant a chymorth i fenywod yn y cyfnod paratoadol mewn hunan-gyflogaeth/creu busnesau. Datblygwyd y prosiect hwn gan Chwarae Teg a Grwp Gweithredu Menter Cymru Gyfan ar gyfer Menywod i ymateb i wybodaeth ystadegol bendant oedd yn dangos fod y gyfran o fenywod yn cychwyn a rhedeg busnesau yn sylweddol îs yng Nghymru nac ar draws gwledydd Prydain yn gyffredinol. Mae Menter Menywod Cymru yn darparu cynhaliaeth, hyfforddiant a chymorth cyn cychwyn busnesau pendant a phenodol ledled Cymru, o gyfres o swyddfeydd lleol.

Mae prosiect Menter Menywod Cymru yn cynnwys elfen amlwg o ymchwil gwreiddiol i ymateb i'r diffyg gwybodaeth a ddynodwyd am gymhellion, ffactorau a nodweddion dylanwadol menywod sy'n cychwyn busnesau yng Nghymru. Mae elfennau cyferbyniol y portffolio ymchwil yn cysylltu â'i gilydd i greu persbectif Cymreig cynhwysfawr ar y materion hyn. Pwrpas penodol yr ymchwil hwn yw ddatblygu a gwella ein dealltwriaeth o pam y mae a pham nad yw menywod yn cychwyn busnesau, er mwyn cyfrannu'n fwy effeithiol at ddatblygu polisi a gwasanaethau cynhaliaeth a chynghori i Gymru. Rhannwyd canlyniadau'r ymchwil yn gyfres o 4 adroddiad:

1. Adolygiad o Wybodaeth Ystadegol
2. Llyfryddiaeth Anodedig
3. Arolwg cynhwysfawr o gymhellion & ffactorau dylanwadol
4. Arolwg manwl o gymhellion & ffactorau dylanwadol

Caiff prosiect Menter Menywod Cymru ei ariannu gan Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF). Mae cam cyntaf y prosiect yn rhedeg o ddechrau 2000 hyd at ddiwedd 2003, gydag ail gam yn rhedeg o 2004 i 2006.

Cynhaliwyd yr ymchwil o dan reolaeth Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, gan dîm o ymchwilwyr a gontractiwyd ar gyfer y prosiect penodol. Trefnwyd y prosiect ymchwil yn gyfochrog â cham cyntaf y gwasanaethau a ddarperir.

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth ar yr astudiaeth hon cysylltwch â
Chwarae Teg ar 029 2047 8900
www.chwaraeteg.com
post@chwaraeteg.com

Prif Gasgliadau
Adolygiad o Wybodaeth Ystadegol

Cynnal arolwg o'r wybodaeth ystadegol sydd ar gael am fenywod mewn busnes, yn benodol felly ar gyfer Cymru a gwledydd Prydain er mwyn arenwi ffynonellau gwybodaeth feintiol ddibynadwy. Cwblhawyd yr ymchwil ym mis Rhagfyr 2002, fe'i diweddarwyd yn 2003 ac eto yn 2005.

Ffynonellau

Casglwyd gwybodaeth ystadegol o ystod eang iawn o ffynonellau. Daethpwyd ar draws dau anhawster penodol:

- Nid yw rhai cyrff a mudiadau yn casglu data ar wahân ar gyfer dynion a menywod
- Mae'r diffiniadau gwahanol o hunan-gyflogaeth, perchnogion busnesau, masnachwyr sengl ac ati yn ei gwneud yn anodd i gymharu ystadegau a gynhyrchir gan ffynonellau gwahanol.

Prif gasgliadau o ffynonellau ystadegol

- Yn y deuddeg mis hyd at fis Mai 2003 cafwyd cynnydd o 30% yn nifer y menywod hunan-gyflogedig yng Nghymru.
- Cynyddodd y Mynegai TEA (Cyfanswm Gweithgarwch Mentergarol) ar gyfer menywod o 3.5% i 4.5% rhwng 2001-2004, tra bod yr un ar gyfer dynion wedi syrthio o 9.1% yn 2003 i 6.5% yn 2004.
- Gwelwyd cynnydd o 30% yn nifer y busnesau niche yn y sector plant/cartref (megis adwerthu, gofal plant neu ddarparu gwasanaethau cartref) yn hanner cyntaf 2003, o'i gymharu â hanner cyntaf 2002.
- Mae dynion 2.5 gwaith yn fwy tebyg o sefydlu busnes yng Nghymru na menywod (2001)
- Mae menywod hunan-gyflogedig yn llawer mwy tebyg o fod yn byw a gweithio mewn ardaloedd gwledig o Gymru (mae ffigyrau o ardaloedd diwydiannol i gefn gwlad Cymru yn amrywio rhwng c1.5% i c10%) (2004)
- Mae tua 28% o fusnesau newydd yng Nghymru yn cael eu cychwyn gan fenywod (2001)
- Dimond 28% o bobl hunan-gyflogedig yng Nghymru oedd yn fenywod, o'i gymharu â 35% yng ngwledydd Prydain yn 2000, erbyn 2002 roedd y ffigwr ar gyfer Cymru wedi codi i 33%.
- Yn ystod yr 1980au gwelwyd cynnydd uwch nac erioed o'r blaen yn nifer y menywod sy'n rhedeg eu busnesau eu hunain yng ngwledydd Prydain – gwelwyd cynnydd o fwy na dwbl, o 292,000 yn 1979 i 780,000 yn 1991.
- Yng ngwledydd Prydain cynyddodd nifer y menywod hunan-gyflogedig 86% rhwng 1991 ac 1997, o'i gymharu â'r cynnydd ymhlith dynion hunan-gyflogedig o 38%. Fodd bynnag, mae cyfran y menywod hunan-gyflogedig yn dal yn lleiafrif, ar tua 35%.

Y Llyfryddiaeth Anodedig

Cwblhawyd adolygiad o'r gwaith ymchwil a wnaed ar y prif faterion a ffactorau sy'n effeithio menywod sy'n cychwyn busnesau, gan ddefnyddio ystod eang o ffynonellau dogfennol. Dynodwyd cyfres o themâu allweddol o fewn y gwaith ymchwil a wnaed hyd yn hyn, ynghyd â nifer o ffactorau allweddol o fewn y themâu hynny. Mae trafodaethau ar y themâu a'r ffactorau hyn yn cynnig trosolwg unigryw a chadarnhaol o'r ymchwil a wnaed hyd yn hyn ledled y byd. Yna, defnyddiwyd y themâu hyn yn y dadansoddiad o'r prif elfennau ymchwil cynradd.

Themâu:

Cymhelliad

- Mae Menywod yn fwy tebygol o gael eu 'tynnu i mewn' i hunan-gyflogaeth oherwydd uchelgais personol, tra bod dynion yn fwy tebygol o gael eu 'denu' gan ddiswyddiad/diweithdra
- Mae cyflawniad personol, hunan-benderfyniad, her ac uchelgais ymhlith y prif ffactorau sy'n cymell menywod
- Mae annibyniaeth yn cymell menywod a dynion, ac ar gyfer menywod mae hynny'n aml yn gysylltiedig â'r angen am hyblygrwydd i reoli cartref, teulu a gwaith
- Mae'n ymddangos fod menywod yn cael eu cymell llai gan arian nac y mae dynion

Nodweddion

- Ar gyfartaledd mae mentergarwyr benywaidd yn tueddu i fod rhwng 35 – 44
- Mae busnesau sy'n eiddo i fenywod heb blant bach ychydig yn fwy tebygol o oroesi
- Mae gan lai o fenywod brofiad blaenorol o fusnes neu o reoli na dynion
- Mae busnesau menywod yn clystyru mewn rhai sectorau penodol, ac mae'n debyg fod hynny'n adlewyrchu eu profiad a'u harbenigedd blaenorol
- Mae prinder menywod mewn busnesau 'twf'
- Mae mentergarydd benywaidd bedair gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael ei dylanwadu gan riant mentergarol
- Mae menywod yn tueddu i fod yn geidwadol ac i ganolbwyntio ar oroesi yn hytrach nac ar dyfu'n gyflym a chynhyrchu llawer o elw

Amgylchedd

- Gellir rhoi dylanwadau amgylcheddol ar fenywod yn eu cyd-destun, trwy ddefnyddio'r modelau busnes traddodiadol , ynghyd â dynesiad mwy ffeministaidd sy'n edrych ar y menywod o fewn dau gylch 'amgylcheddol' cydganol
- Dynodir gwahaniaethau rhyw amlwg o ran adeiladu a defnyddio rhwydweithiau a fframweithiau cynhaliaeth bersonol eraill. Mae menywod yn rhwydweithio, ond mae'n nhw'n tueddu i fod yn ysgafnach a llai traddodiadol, a chynnwys swyddogaethau cynhaliaeth a gwybodaeth gilyddol

Cyfleoedd i Dderbyn Cefnogaeth Ariannol

- Mae busnesau menywod yn fwy tebygol o wynebu anawsterau wrth geisio cael nawdd ariannol, ond mae hynny'n ymwneud mwy â phroffil menywod a'r mathau o fusnesau sydd ganddynt yn hytrach nac â chamwahaniaethau ar sail rhyw
- Mae busnesau menywod yn llai tebygol o fod yn fusnesau twf uchel, a'r rheiny sy'n tueddu i ddenu'r cyfleoedd ariannu mwyaf

Teulu

- Mae cyfrifoldebau teuluol yn gweithio mewn dwy ffordd, trwy rwystro menywod rhag cychwyn, tyfu neu ddatblygu eu busnesau, ond hefyd fel symbyliad i fynd yn hunan-gyflogedig
- Mae rôl menywod mewn busnesau teuluol yn arbennig o ddiddorol, gan fod y rolau hynny'n aml yn cael eu cuddio, neu trwy iddynt ganolbwyntio'n aml ar agweddau penodol o'r busnes
- Mae sicrwydd teuluol yn aml yn bwysicach na llwyddiant busnes i fenywod sy'n berchnogion ar fusnesau bychain

Hyfforddiant & Chynhaliaeth

- Bu rhaglenni cynhaliaeth a hyfforddiant sydd wedi'u hanelu'n benodol at fenywod sy'n cychwyn a datblygu busnesau yn llwyddiannus iawn
- Mae codi ymwybyddiaeth ynghylch y cyfleoedd a gynigir gan berchnogaeth busnes i fenywod yn bwysig iawn
- Mae menywod yn fwy tebygol o fanteisio ar hyfforddiant addas os caiff ei gynnig, ac mae'r manteision busnes a phersonol yn sylweddol. Fodd bynnag, mae cyfran helaeth o fenywod yn gadael yr hyfforddiant cyn y diwedd, neu mae'r rhaglenni a ddarperir yn rhy gyffredinol ac yn anaddas

Mae hyfforddi hyfforddwyr, ymgynghorwyr a mentoriaid i gynnal anghenion penodol menywod yn cael ei ystyried yn bwysig iawn

Arolygon ynghylch cymhelliant & ffactorau dylanwadol

Canolbwyntiodd y prif waith ymchwil ar ymchwilio, am y tro cyntaf ar lefel Cymru gyfan ac ar lefel leol, y prif ffactorau sy'n cymell a dylanwadu ar fenywod wrth iddynt benderfynu cychwyn neu beidio cychwyn eu busnes eu hunain. Roedd yr ymchwil hwn yn cynnwys arolwg cynhwysfawr trwy holiadur, ynghyd ag astudiaeth ansoddol ddilynol trwy gyfweliadau manwl. Llwyddodd yr astudiaethau i gasglu cryn dipyn o wybodaeth feintiol, ffeithiol ac anecdotaidd am safbwyntiau a syniadau menywod yng Nghymru am hunan-gyflogaeth.

Casgliadau o'r arolwg holiadur cynhwysfawr

Cafodd 1341 o holiaduron eu danfon yn ôl a'u dadansoddi, sef cyfradd ddanfon yn ôl o 15%.

Mae casgliadau'r ymchwil hwn yn dangos –

- Y ffactorau sy'n cymell menywod y FWYAF wrth gychwyn busnes: Yr angen am annibyniaeth/rheolaeth, Yr angen am ryddid/hyblygrwydd, Yr angen i gyflawni breuddwyd neu uchelgais, Hunan-gyflawniad
- Y ffactorau sy'n cymell menywod y LEIAF wrth gychwyn busnes: Ennill statws cymdeithasol/cydnabyddiaeth gymdeithasol, Yr awydd i fentro, Yr awydd i wella hunan-barch
- Ffynonellau cynhaliaeth a chefnogaeth pwysicaf i fenywod sy'n cychwyn busnes: Cynhaliaeth gan deulu a chyfeillion, Cyngor am arian, Hwylustod benthyciadau, grantiau a gorddrafftiau

- Problemau mwyaf arwyddocaol: Methu cael gafael ar grantiau, Cyfrifoldeb cartref, Diffyg medrau busnes
- Ffactorau MWYAF dylanwadol ar y daith at hunan-gyflogaeth: Bod yn gyfforddus yn ariannol, Anogaeth gan eraill, Y cyfle i ddatblygu medr neu dalent, Rhesymau ffordd-o-fyw – hyblygrwydd amser & lle
- Mae menywod hyn yn llai tebygol o fod yn hunan-gyflogedig na menywod iau
- Roedd yn llai tebygol y byddai gan fenywod hunan-gyflogedig bobl yn dibynnu arnynt gartref
- Mae'n fwy tebygol y byddai gan fenywod hunan-gyflogedig bobl yn dibynnu arnynt gartref
- Mae'n fwy tebygol y bydd gan ddynion sy'n berchnogion busnes aelodau o'r teulu mewn busnes na menywod sy'n berchnogion busnes
- Mae menywod yn aml yn hunan-gyflogedig ac yn gyflogedig ar yr un pryd
- Roedd llawer o fenywod a ymatebodd wedi cael problemau o ran gwybod ble i fynd i gael cyngor ac roedd eraill wedi cael y cyngor anghywir
- Roedd nifer arwyddocaol o fenywod (44%) yn teimlo eu bod wedi wynebu rhyw gymaint o gamwahaniaethu ar sail rhyw wrth sefydlu busnes
- Roedd 42% wedi wynebu problemau hygrededd, ac mae hynny'n fwy o broblem i fenywod rhwng 46 – 55 oed
- Mae ddiffyg medrau busnes a rheolaeth yn anhawster i fenywod wrth geisio cael gafael ar gynhaliaeth ariannol

Casgliadau o'r cyfweliadau manwl

Holwyd 45 o fenywod, o bob rhan o Gymru, ar y ffôn, gan ddefnyddio fformat lled-drefnus

Allwch chi esbonio pam yr ydych/yr oeddech eisiau cael eich busnes eich hun?

- Mae gan fenywod yn aml iawn gymysgedd o resymau dros gychwyn busnes, yn hytrach nac un rheswm penodol
- Roedd llawer o fenywod yn canolbwyntio ar resymau personol dros fod yn berchen ar fusnes
- Roedd menywod yn aml yn anfodlon gyda'u gwaith blaenorol. I rai menywod dæth y maes yr oeddent yn gweithio ynddo yn anaddas iddynt wrth i'w hamgylchiadau newid
- Roedd nifer o fenywod wedi sefydlu busnesau i ymateb i anghenion lleol

Beth helpodd chi i symud tuag at gychwyn busnes?

- Effaith y gweithle
- Dylanwad pobl busnes eraill
- Busnesau neu adeiladau'n dod ar gael
- Sefyllfa ariannol bersonol, cynhaliaeth ariannol bersonol neu deuluol ar gael
- Cynhaliaeth ariannol allanol ar gael
- Cynhaliaeth oddi wrth gyfeillion a'r teulu
- Diswyddiad & diweithdra
- Symbyliadau personol
- Hyfforddiant a/neu Cynhaliaeth

A oes unrhyw beth wedi amharu ar ddatblygiad eich busnes?

- Methu cael gafael ar arian a gwasanaethau ariannol
- Methu cael gafael ar wybodaeth a chyngor
- Diffyg adeiladau addas
- Materion partneriaeth
- Hygrededd
- Materion Cymru Wledig
- Cydbwysedd gwaith-bywyd
- Diffyg hyder

Allwch chi ddweud wrtha i beth yw gwir fanteision rhedeg busnes?

- Hyblygrwydd
- Rhyddid, annibyniaeth, rheolaeth
- Manteision ariannol
- Manteision personol
- Perchnogaeth, boddhad & chydnabyddiaeth

A sut ydych chi wedi elwa'n bersonol o hyn?

- Mwy o hyder
- Datblygu medrau
- Ymdopi ag anawsterau personol

Casgliadau

Y prif ffactorau sy'n cymell menywod yw annibyniaeth, rhyddid & hunan-gyflawniad
Maen nhw'n llai tebygol o gael eu cymell gan statws a'r cyfle i gymryd risg
Mae cyfeillion a theuluoedd yn cynnig cynhaliaeth i fenywod sy'n cychwyn busnes
Mae menywod yn llai tebygol a ddatblygu busnesau twf uchel

Argymhellion

Mae'n amlwg fod hyfforddiant a chynhaliaeth ar gyfer menywod cyn iddynt gychwyn busnesau wedi cynorthwyo llawer o fenywod wrth iddyn nhw sefydlu busnesau. Mae angen arenwi a chydnabod arfer da o brosiectau a rhaglenni byrdymor a'u cynnwys mewn rhaglenni datblygu menter prif ffrwd a chynnal busnesau newydd

Mae angen inni werthfawrogi pwysigrwydd y mathau o fusnesau y mae menywod yn eu creu yn yr economi (o ran sectorau blaenoriaeth, dyheadau menywod, cyfranogiad menywod yn y farchnad lafur, cyfraniad y busnesau hynny i isadeiledd cymunedau

Ymchwil Pellach

Mae'r ymchwil wedi dynodi nifer o feysydd y byddai'n ddefnyddiol a llesol cynnal ymchwil pellach ynddynt, gan gynnwys:

Defnydd o arolygon hydredol, o ran archwilio sut y mae agweddau'n newid gydag amser a hefyd wrth olrhain cymhellion unigol unigolion gydag amser
Ymchwilio sefyllfaoedd, cymhellion ac anghenion penodol menywod mewn ardaoledd gwledig

Deinameg busnesau teuluol, rôl menywod yn y sefyllfa hon a materion yn gysylltiedig â dilyniant

Archwilio'r berthynas rhwng profiad busnes blaenorol a'r ffactorau o ran cymhellion a llwyddiant menywod sy'n cychwyn busnesau newydd

Adolygiad o brosesau a chamau tyfu syniadau busnes newydd gan fenywod

Cymhariaeth o fusnesau menywod o ran ffordd o fyw v. busnesau twf; a all y gwahaniaethau hyn fod yn gysylltiedig â chymhellion a dyheadau cyn ac wrth gychwyn busnesau newydd?